# COFRESTRU GENI

Mae'n rhaid cofrestru'r holl enedigaethau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon o fewn 42 diwrnod wedi geni plentyn.

Dylech wneud hyn yn y swyddfa gofrestru leol https://www.gov.uk/register-offices ar gyfer yr ardal lle ganwyd y babi neu yn yr ysbyty cyn i'r fam adael os yw'r ysbyty'n gallu cofrestru'r geni yno.

Os nad oes modd i chi gofrestru'r geni yn ardal geni'r plentyn, gallwch fynd i swyddfa gofrestru arall i wneud datganiad geni ac anfonant eich manylion i'r swyddfa gywir lle caiff y cofrestriad ei gofnodi yn y gofrestr gywir.

Cofrestrir geni gan hysbyswr cymwys:

Mae angen cyflwyno gwybodaeth ar gyfer cofrestru, mewn person, o fewn 42 diwrnod wedi'r geni ac mae cyfrifoldeb cyfreithiol ar rai pobl i wneud hyn. Yn nhrefn y dewis, dyma'r bobl gaiff wneud hyn:

- Mam y plentyn
- Tad y plentyn os oedd y rhieni'n briod adeg y beichiogi
- Y tad mewn achos beichiogi trwy driniaeth ffrwythloni, os oedd hwnnw'n briod i fam y plentyn, neu'r ail riant benywaidd os oedd yn briod/mewn partneriaeth sifil â'r fam ar adeg y driniaeth
- Preswylydd y tŷ neu'r sefydliad lle ganwyd y babi
- Person a fu'n bresennol yn ystod y geni; neu
- Y person â chyfrifoldeb dros y plentyn

Os nad oedd y tad yn briod â'r fam ar adeg y beichiogi, nid oes modd ychwanegu ei enw na manylion eraill ar y gofrestr ac eithrio os daw gyda'r fam i gofrestru (ond nid oes dyletswydd gyfreithiol arno i wneud hynny).

Mae rhai amgylchiadau pan fo'n bosibl cofrestru gan gynnwys manylion y tad e.e. trwy gyflwyno gorchymyn llys; fodd bynnag, bydd angen trafod hyn â'r cofrestrydd wrth wneud apwyntiad ar gyfer cofrestru'r geni.

**Os genir y babi yn Ysbyty Athrofaol Cymru, dylid cofrestru'r geni yn Swyddfa Gofrestru Caerdydd.**

Gellir cofrestru'r geni trwy ddatganiad naill ai yn Swyddfa Cofrestru Bro Morgannwg yn y Barri neu ym Mhenarth, fodd bynnag ni fydd y cofnod yn y swyddfeydd hyn. Anfonir y datganiad i Swyddfa Cofrestru Caerdydd lle caiff ei ychwanegu at y gofrestr genedigaethau a gellir prynu copïau ychwanegol o'r dystysgrif geni ar gais.